

Rhagair Diwygiedig

Fel Comisiynydd y Gymraeg, mae'n bleser cyflwyno'r Polisi Gorfodi diwygiedig hwn, sy'n adlewyrchu ein dull o gyd-reoleiddio a'n ffocws cynyddol ar ddeilliannau rheoleiddio. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod sefydliadau'n gallu darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel, a bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar egwyddorion cydweithredu a phartneriaeth, gan weithio'n agos gyda sefydliadau; nid yn unig i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ond hefyd i sicrhau bod hawliau siaradwyr a defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu gwireddu'n ymarferol wrth dderbyn gwasanaethau.

Mae gennym rôl ddeuol fel rheoleiddiwr: addysgu, cefnogi a hyrwyddo cydymffurfiaeth, ond hefyd gorfodi lle bo angen. Ein dymuniad yw gweithio gyda sefydliadau drwy ddull ataliol a chydweithredol, er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle mae angen camau gorfodi. Fodd bynnag, pan nad oes sicrwydd na hyder fod sefydliadau yn cyflawni eu dyletswyddau, byddwn yn gweithredu'n gadarn gan ddefnyddio ein holl bwerau i sicrhau cydymffurfiaeth, ac yn ei dro i ddiogelu hawliau siaradwyr a defnyddwyr y Gymraeg.

Wrth wneud hyn, rydym yn ymrwymo i weithredu yn unol ag egwyddorion rheoleiddio da – megis tegwch, cymesuredd, tryloywder a chysondeb – gan sicrhau bod ein camau'n briodol ac yn gymesur â'r amgylchiadau.

Ein nod yw creu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, gan weithredu'n agored ac yn gyson er mwyn ennyn hyder yn ein dulliau. Rydym yn canolbwyntio ar ddeilliannau sy'n gwneud gwahaniaeth i siaradwyr Cymraeg, ac yn galw ar bob sefydliad i gydweithio â ni i gyflawni'r nod hwn.

Diolch am eich cydweithrediad parhaus.